



Among us




Call of Duty




Clash of Clans




Discord




Facebook




Fortnite




Grand Theft Auto




Honk




Instagram




Messenger




Monkey Web




Omegle




Only fans




Pokemon Go




Roblox



Signal




Snapchat



Tik Tok



Tumblr



Twitch



Twitter



WhatsApp



Whisper



YouTube

Problemau a phryderon ar-lein'

Yr wythnos hon mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ardal '[Problemau a phryderon ar-lein](#)' newydd ar Hwb yn benodol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r ardal newydd hon yn cynnwys gwybodaeth a chyngor ar 10 pwnc gwahanol am gadw'n ddiogel ar-lein, gan gynnwys bwllo ar-lein, rhannu lluniau noeth a gemau ar-lein. Lluniwyd y cyngor gan ymchwil Llywodraeth Cymru i brofiadau a phryderon ar-lein plant a phobl ifanc a rhai o'r rhwystrau i gael cymorth. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr ymchwil yn yr erthygl 'Barn yr arbenigwyr'.

Mae'r cyngor wedi'u cynllunio i helpu plant a phobl ifanc i ddeall mwy am gadw'n ddiogel ar-lein ac yn cynnig arweiniad ar beth i'w wneud a ble i droi am help os ydyn nhw'n poeni am rywbeth ar-lein.

Helpwch ni i godi ymwybyddiaeth o '[Problemau a phryderon ar-lein](#)' ymhlith plant a phobl ifanc fel eu bod yn cael eu cefnogi i fod yn gadarn yn ddigidol a'u bod yn cael eu grymuso i ddelio â phroblemau y gallan nhw ddod ar eu traws ar-lein yn ddiogel.



Cyngor i blant a phobl ifanc: problemau a phryderon ar-lein



Mae llawer o bethau gwyb am y cyfryngau cymdeithasol, apiau a gemau; i'r rhan fwyaf ohonon ni, fyddai bywyd ddim yr un peth hebddyn nhw. Ond weithiau mae pethau'n gallu mynd o chwith, a gallech chi deimlo eich bod mewn

Rydyn ni i gyd yn awyddus i wneud yn siŵr bod ein profiad ar-lein yn gadarnhaol, felly nod yr ardal hon yw eich helpu i wneud synnwyr o rai o'r pethau efallai y bydd angen i chi ddelio â nhw. Mae'r tudalennau gwybodaeth hefyd yn cynnwys cyngor ar beth i'w wneud a ble i fynd am

Cofiwch fod hawliau gennych chi, a bod yr hawliau hyn yn berthnasol i'r byd digidol hefyd!



Cynnwys anghyfreithlon a sarhaus



Bwlio ar-lein



Chwarae gemau ar-lein



Meithrin perthynas amhriodol ar-lein



Casineb ar-lein



Radicleiddio ac eithafiaeth ar-lein



Enw da ac ôl troed ar-lein




Aflonyddu rhywiol ar-lein



Rhannu lluniau noeth



Cyfryngau cymdeithasol



<https://hwb.gov.wales/parthau/cadwn-ddiogel-ar-lein/cyngor-i-blant-a-phobl-ifanc-problemau-a-phryderon-ar-lein/>

Bydd wybodus - y diweddaraf ar apiau, cyfryngau cymdeithasol a gemau i deuluoedd




Mae technoleg yn ganolog i bopeth mae pobl ifanc yn ei wneud. O gysylltu â ffrindiau ar y cyfryngau cymdeithasol, i gystadlu gyda chwaraewyr gemau eraill o bob cwr o'r byd ar wahanol blatfformau gemau aml-chwaraewr. Mae'n hawdd i rieni a gofalwyr gael eu llethu wrth geisio deall yr ymgysylltu hwn â thechnoleg ddigidol, ac mae sefydlu ffiniau yn gallu bod yn anodd.

Cynlluniwyd a chrëwyd y prosiect 'Bydd Wybodus' yn benodol ar gyfer rhieni a ofalwyr, i roi'r wybodaeth allweddol sydd ei hangen arnyn nhw i helpu pobl ifanc i ddechrau ar eu teithiau digidol yn ddiogel.

Mae'r casgliad o ganllawiau yn ymdrin â'r hyn ddylai pob rhiant a gofalwr ei wybod am y cyfryngau cymdeithasol a'r apiau gemau mwyaf poblogaidd ymysg plant heddiw.

Mae pob canllaw yn cynnwys trosolwg manwl o'r ap, gan amlinellu'r sgôr oedran a'r derminoleg allweddol ddylai fod yn gyfarwydd i rieni a gofalwyr. Mae'r canllawiau hefyd yn tynnu sylw at beryglon pob ap i bobl ifanc ac yn rhoi cyfarwyddiadau manwl ar sut i roi rheolaethau rhieni a gosodiadau diogelwch ar waith.



<https://hwb.gov.wales/parthau/cadwn-ddiogel-ar-lein/bydd-wybodus/>